**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 5ed o Dachwedd 2015 am 7.30 pm yn Neuadd Cilcennin**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Gwyndaf Morgan (Cadeirydd), y Cynghorwyr Dai Evans, Gwyn Jones, John Emrys Jones a John Lumley.

1 <u>Ymddiheuriadau</u>

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Aneurin Roberts ac Iwan Thomas am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Materion Personol

Yn absenodeb y Clerc roedd y Cynghorydd John Lumley wedi cytuno cofnodi`r trafodaethau.

Cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Helen Evans a`i theulu yn eu profedigaeth.

Dymunwyd gwellhâd buan i Janet, gwraig Denfer Morgan, y Clerc.

Croesawyd y Cynghorydd Gwyn Jones yn ôl yn dilyn llawdriniaeth.

3 <u>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</u>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Hydref 2015.

4 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u>

i) cafwyd Adroddiad gan y Cynghorydd John Lumley ynglŷn â'r cyfarfod yn Nhirbach i drafod y posibilrwydd o ddargyfeirio'r Llwybr Cyhoeddus. Cwestiynwyd pwy fyddai`n gyfrifol am y costau cyfreithiol am y dargyfeiriad gan taw`r Cyngor oedd yn awyddus i`w newid. Hefyd, a fyddai hawl gan y Cyngor i wario arian y Cyngor am y rhesymau hyn? PENDERFYNWYD gofyn i`r Clerc gysylltu â Un Llais Cymru am eu sylwadau;
ii) PENDERFYNWYD gofyn am ddiweddariad ar fwriad y Cyngor i gael estyniad i'r fynwent yn y cyfarfod nesaf;
iii) gofynwyd am gadarnhâd fod y trefniadau bancio newydd mewn grym;
iv) cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ar y trafodaethau ymg nghynhadledd blynyddol Un Llais Cymru.

5 <u>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru</u>

Roedd y Cyngor ar ddeall fod yr ymgynghoriad wedi ei ohirio tan ar ôl etholiadiau Cynulliad Cenedlaethol.

6 Cysgodfeydd Bws Ciliau Aeron

Cyfeiriodd y Cynghorydd John Lumley at faterion yn ymwneud â'r cysgodfa bws yng Nghiliau Aeron. Roedd yr Aelodau yn ffyddiog mai`r Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am y ddau gysgodfa gan taw y nhw fu'n ail godi'r cysgodfa gyferbyn â'r ysgol gynradd yn dilyn damwain ar y sgwâr. Y Cyngor hwn oedd yn gyfrifol am y fainc a ddinistrwyd ar yr un pryd. PENDERFYNWYD gofyn i'r Cynghorydd Sir John Lumley godi`r mater eto gyda`r Adran Priffyrdd.

7 Bwrdd Iechyd Hywel dda

Nodwyd manylion y digwyddiadau 'Sgwrs Iach' (Gwasanaethau Iechyd Bwrdd IechydHywel Dda) isod yng Ngheredigion:

9/11 – Neuadd Tysul, Llandysul 6.30 pm – 8.30 pm
30/11 – Neuadd Goffa Tregaron 2.00 pm – 4.00 pm

Dywedodd y Cynghorydd John Lumley ei fod am fynd i'r un yn Nhregaron a gallai gynnig lift i unrhyw Aelod arall oedd am fynd iddo fe.

8 <u>Unrhyw Fater Arall</u>

Trafodwyd cyflwr gwael heol Parc yr Hŷdd a PHENDERFYNWYD cyfeirio'r mater at Tai Ceredigion.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm

<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 3ydd o Ragfyr 2015</u>